**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig) (Cymru) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig) (Cymru) 2023. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Julie Morgan AS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**

**7 Tachwedd 2023**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") yn nodi'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol ac ar gyfer rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. I helpu i gyflawni hyn mae'n darparu ystod o bwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau a mathau eraill o is-ddeddfwriaeth.

1.2 Mae *Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig) (Cymru) 2023* ("Rheoliadau 2023") yn diffinio'r gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig sydd i gael eu cynnwys yn y gyfundrefn reoleiddio.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae adran 2(1)(i) o Ddeddf 2016 yn bŵer gwneud rheoliadau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi gwasanaethau eraill sy'n cynnwys y ddarpariaeth o ofal a chymorth yng Nghymru fel gwasanaeth rheoleiddiedig. Mae adran 2(2) yn cyfeirio at Atodlen 1 sy'n gwneud darpariaeth bellach ynghylch ystyr y termau a ddefnyddir ac yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu "*gwasanaeth preswyl ysgol arbennig*" at ddibenion adran 2.

3.2 Mae'r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol ("yr Ymchwiliad") yr adroddiad ymchwiliad 'Yr ymchwiliad i ysgolion preswyl Cyfnod 1: Ysgolion cerdd, ysgolion arbennig preswyl - Cyfnod 2: Diogelu: ysgolion dydd ac ysgolion preswyl'. Edrychodd yr Ymchwiliad ar gwestiynau ynghylch cam-drin plant yn rhywiol mewn ysgol arbennig breswyl yng Nghymru a Lloegr. Rhoddodd Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru ("AGC") dystiolaeth i'r Ymchwiliad. Mae argymhellion yr Ymchwiliad yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol arbennig breswyl gael ei harolygu yn erbyn y safonau ansawdd a ddefnyddir i reoleiddio cartrefi gofal yng Nghymru.

4.2 Diben Rheoliadau 2023 yw diffinio *gwasanaeth preswyl ysgol arbennig* at ddibenion Deddf 2016 a'i gynnwys yn y gyfundrefn reoleiddio, arolygu a gorfodi. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaethau y tu allan i gwmpas rheoleiddio fel gwasanaeth cartref gofal o dan Ddeddf 2016 gan eu bod o dan y trothwy

o 295 o ddiwrnodau neu lai. Bydd cynnwys ysgolion arbennig preswyl fel *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig* yn y gyfundrefn reoleiddio yn cyflawni argymhelliad yr Ymchwiliad.

## 5. Ymgynghori

Cafodd ymgynghoriad cyhoeddus ei gynnal am 12 wythnos rhwng 15 Mai 2023 a 6 Awst 2023 ar y gyfres o reoliadau drafft sy'n llunio'r fframwaith rheoleiddiol a'r canllawiau statudol cysylltiedig ar gyfer *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig*. Tynnwyd sylw rhanddeiliaid allweddol at yr ymgynghoriad, gan gynnwys yr ysgolion arbennig preswyl presennol, awdurdodau lleol, Comisiynydd Plant Cymru, AGC, Estyn a Gofal Cymdeithasol Cymru. Cafodd cyfarfod o'r grŵp rhanddeiliaid ei gynnull yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae'r adroddiad sy'n crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael yma.

**RHAN 2 - ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig) (Cymru) 2023 ("Rheoliadau 2023").

Mae Rheoliadau 2023 yn nodi ystyr "*gwasanaeth preswyl ysgol arbennig*" at ddibenion Deddf 2016.

Bydd ysgolion arbennig preswyl yn cael eu cynnwys o fewn cwmpas rheoleiddio o dan Ddeddf 2016 fel gwasanaeth rheoleiddiedig. Bydd hyn yn sefydlu dull mwy cyson o ymdrin â chofrestru, rheoleiddio, arolygu a gorfodi gwasanaethau sy'n gofalu am blant agored i niwed am gyfnodau byr neu estynedig. Bydd yn ofynnol i'r darparwyr gwasanaethau gofrestru o dan Ddeddf 2016. Mae'r gyfundrefn reoleiddio yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir, ac ar eu diogelwch, ar lesiant yr unigolyn a chanlyniadau a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar y plant sy'n aros yn y gwasanaeth ac ar ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn gyffredinol. Bydd y dull hwn hefyd yn sicrhau bod gan AGC y pwerau angenrheidiol i fynnu gwelliannau a nodwyd yn ystod arolygiadau a chymryd camau gorfodi pe bai gwasanaethau'n parhau i ddisgyn yn brin o'r gofynion rheoleiddiol disgwyliedig.

**6. Diffiniad**

6.1 Mae ysgolion arbennig preswyl yn darparu addysg a llety i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, fel Anhwylderau Ymddygiadol Emosiynol, Awtistiaeth, anableddau dysgu ac anableddau corfforol. Yn fras, mae ysgolion arbennig preswyl yn darparu cwricwlwm 24 awr i gefnogi a hyrwyddo byw'n annibynnol drwy ddatblygu sgiliau cymdeithasol, sgiliau ar gyfer bod yn annibynnol, sgiliau hunangymorth a sgiliau bywyd priodol. Mae plant yn aros yn yr ysgol rhwng un a phedair noson ysgol yr wythnos, yn ystod y tymor yn unig. Nid yw 'ysgol arbennig breswyl' yn derm a ddiffinnir yn benodol yn y ddeddfwriaeth bresennol, ond mae'n cael ei ddefnyddio gan AGC i wahaniaethu rhwng yr ysgolion hyn ac ysgolion arbennig nad ydynt yn darparu llety.

6.2 Mae AGC yn dibynnu ar bwerau yn Neddf Plant 1989 ("Deddf 1989") wrth oruchwylio ysgolion arbennig preswyl sydd o dan y trothwy o 295 o ddiwrnodau neu lai ac sydd felly y tu allan i gwmpas rheoleiddio fel gwasanaeth cartref gofal o dan Ddeddf 2016. O dan Ddeddf 1989, caiff AGC gynnal gweithgarwch arolygu ond heb bwerau gorfodi uniongyrchol ac ni chaiff ei gwneud yn ofynnol i'r ysgolion gofrestru. Mae AGC yn arolygu'r ysgolion hyn yn erbyn Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Arbennig Preswyl a gyhoeddwyd yn 2003 o dan adran 87 o Ddeddf 1989. Nid oes modd gorfodi Safonau Gofynnol Cenedlaethol ac maent yn canolbwyntio ar gyrraedd safon ofynnol nad yw'n gyson â'r cyfeiriad polisi ehangach o ran rheoleiddio ac arolygu a sefydlwyd o dan Ddeddf 2016.

6.3 Mae pob ysgol yng Nghymru, gan gynnwys ysgolion arbennig preswyl, hefyd yn cael ei harolygu gan Estyn o dan Ddeddf Addysg 2005 a'r rheoliadau cysylltiedig. Mae arolygiadau Estyn yn ystyried llesiant y disgyblion, (gan gynnwys trefniadau diogelu) ac amwynderau'r ysgol o ran y ddarpariaeth addysgol, ond nid ydynt yn cynnwys yr agweddau ar yr ysgol sy'n ymwneud â gofal preswyl a chymorth.

6.4 Bydd y dull arfaethedig yn cynnwys elfen breswyl yr ysgolion arbennig preswyl o fewn cwmpas rheoleiddio o dan Ddeddf 2016. Felly, bydd yn ofynnol i wasanaethau presennol a gwasanaethau newydd gofrestru gydag AGC. Bydd yn ofynnol iddynt fodloni gofynion a osodwyd mewn rheoliadau sy'n gysylltiedig ag ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir, ynghyd â'u diogelwch. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys addasrwydd y gwasanaeth, yr amgylchedd, y trefniadau staffio, yr hyfforddiant i staff a'r trefniadau diogelu. Bydd y gwasanaethau yn cael eu harolygu gan AGC. Mae gan y rheoleiddiwr bwerau gorfodi o dan y fframwaith rheoleiddiol.

6.5 Mae'r dull arfaethedig yn cydnabod y gwahaniaethau rhwng ysgolion arbennig preswyl lle y bydd plant yn aros yn yr ysgol dros nos am gyfnod rhwng un a phedair noson yr wythnos ond yn byw gyda'u rhieni, a gwasanaethau cartrefi gofal lle y mae oedolion neu blant yn preswylio'n llawnamser. Rheoleiddio ysgolion arbennig preswyl fel gwasanaeth rheoleiddiedig newydd yn ei rinwedd ei hun – *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig* – yw'r bwriad felly.

## 7. Yr opsiynau

Mae dau opsiwn wedi cael eu hystyried wrth ddadansoddi'r costau, y risgiau a'r manteision, sef:

<u>Opsiwn un: Gwneud dim</u>
O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai yna reoliad annibynnol newydd i ddiffinio *gwasanaeth preswyl ysgol arbennig*. Canlyniad hyn fyddai peidio â chynnwys y gwasanaeth hwn yn y gyfundrefn reoleiddio o dan Ddeddf 2016.

<u>Opsiwn dau: Gwneud rheoliad annibynnol newydd i ddiffinio gwasanaeth preswyl ysgol arbennig</u>
O dan yr opsiwn hwn, byddai Llywodraeth Cymru yn diffinio *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig* ac yn dechrau'r broses o gynnwys y gwasanaeth yn y gyfundrefn gofrestru, rheoleiddio, arolygu a gorfodi.

### 7.1 Costau

<u>Opsiwn un: Gwneud dim</u>

O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai yna unrhyw gostau i'r rheoleiddiwr na'r sector gan mai dyma'r opsiwn "gwneud dim".

Opsiwn dau: Gwneud rheoliad annibynnol newydd i ddiffinio gwasanaeth preswyl ysgol arbennig
O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai yna unrhyw gostau i'r rheoleiddiwr na'r sector gan fod yr opsiwn hwn yn diffinio *gwasanaeth preswyl ysgol arbennig*. Bydd costau i Lywodraeth Cymru, yn benodol ar gyfer AGC fel y rheoleiddiwr gwasanaethau, dim ond pan fydd *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig* yn cael eu cynnwys yn y rheoliadau cofrestru, arolygu a gorfodi.

### 7.2 Risgiau

Opsiwn un: Gwneud dim
Gan mai dyma'r opsiwn "gwneud dim", byddai'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Arbennig Preswyl yn cael eu cadw, ac ni fyddai AGC yn cael y pwerau gorfodi i ddelio â methiant gan ddarparwr gwasanaeth. Byddai'r darparwyr gwasanaethau'n parhau i gael eu harolygu yn erbyn safon ofynnol nad yw'n gyson â'r cyfeiriad polisi ehangach o ran rheoleiddio ac arolygu a sefydlwyd o dan Ddeddf 2016. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn ymateb yn effeithiol i argymhelliad yr Ymchwiliad ac efallai y byddai'n arwain at ganlyniadau anfwriadol o ran ansawdd parhaus y gwasanaethau a'r canlyniadau i blant sy'n aros yn y gwasanaethau. Gallai hyn effeithio ar enw da Llywodraeth Cymru.

Opsiwn dau: Gwneud rheoliad annibynnol newydd i ddiffinio gwasanaeth preswyl ysgol arbennig
Mae yna risg fach iawn bod y diffiniad o *wasanaeth preswyl ysgol arbennig* yn gorgyffwrdd â gwasanaethau rheoleiddiedig presennol, megis gwasanaethau cartrefi gofal, neu fod iddo ganlyniadau anfwriadol o ran cynnwys gwasanaethau eraill yn y gyfundrefn reoleiddio, megis ysgolion preswyl. Er mwyn lliniaru'r risg, cynhaliwyd cyfarfodydd â'r darparwyr gwasanaethau presennol a rhanddeiliaid i sefydlu nodweddion y gwasanaethau y maent oll yn eu darparu, a gwnaed cysylltiadau ag arweinwyr polisi addysg yn Llywodraeth Cymru.

### 7.3 Manteision

Opsiwn un: Gwneud dim
Ni nodwyd unrhyw fanteision sylweddol mewn perthynas â'r opsiwn hwn.

Opsiwn dau: Gwneud rheoliad annibynnol newydd i ddiffinio gwasanaeth preswyl ysgol arbennig
O dan yr opsiwn hwn, byddai'r diffiniad yn darparu eglurder ac yn ei gwneud yn bosibl gwahaniaethu rhwng gwasanaethau gofal eraill a ddiffinnir o dan Ddeddf 2016 a gwasanaethau addysg. Bydd Llywodraeth Cymru yn gallu cynnwys *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig* o fewn cwmpas prosesau cofrestru,

rheoleiddio, arolygu a gorfodi. Bydd hyn yn sefydlu dull mwy cyson o ymdrin â chofrestru, rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau sy’n gofalu am blant agored i niwed am gyfnodau byr neu estynedig. Mae’r gyfundrefn reoleiddio’n canolbwyntio ar ansawdd y gofal a’r cymorth a ddarperir, ac ar eu diogelwch, ac ar lesiant yr unigolyn a chanlyniadau a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar y plant sy’n aros yn y gwasanaeth ac ar ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn gyffredinol.

Mae’r opsiwn hwn yn ymateb i argymhelliad yr Ymchwiliad y dylai “…*Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol arbennig breswyl gael ei harolygu yn erbyn y safonau ansawdd a ddefnyddir i reoleiddio cartrefi plant yn Lloegr a chartrefi gofal yng Nghymru*”.

**8. Asesu'r gystadleuaeth**

| Prawf hidlo’r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r Rheoliadau newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni dros 10% o gyfran y farchnad? | Oes |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r Rheoliadau newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni dros 20% o gyfran y farchnad? | Oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r Rheoliadau newydd yn effeithio arni/arnynt, a yw’r tri chwmni mwyaf, gyda'i gilydd, yn cynrychioli o leiaf 50% o'r farchnad? | Ydynt |
| **C4**: A fyddai costau’r Rheoliadau yn effeithio llawer mwy ar rai cwmnïau o gymharu ag eraill? | Na fyddent |
| **C5**: A yw'r Rheoliadau’n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint cwmnïau? | Nac ydynt |
| **C6**: A fyddai’r Rheoliadau yn arwain at gostau sefydlu uwch i ddarpar gyflenwyr neu gyflenwyr newydd, nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddent |
| **C7**: A fyddai’r Rheoliadau’n arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddent |
| **C8**: A oes newidiadau technolegol mawr yn digwydd o fewn y sector? | Nac oes |
| **C9**: A fyddai'r Rheoliadau’n cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynnyrch? | Na fyddent |

Dim ond pedair ysgol arbennig breswyl sy’n bodoli eisoes y bydd yn ofynnol iddynt gofrestru fel *gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig* ac, at ddibenion y prawf hidlo, mae hyn yn golygu bod cyfran dau gwmni o’r farchnad yn gyfwerth â 50%. Nid ydym o'r farn bod angen cynnal asesiad o’r gystadleuaeth ar gyfer y Rheoliadau hyn gan na fyddant yn cael effaith niweidiol ar gystadleuaeth nac yn effeithio ar y sector busnes na’r trydydd sector mewn unrhyw ffordd arwyddocaol.

## 9. Adolygu ar ôl gweithredu

Bydd AGC yn monitro gweithrediad y Rheoliadau hyn ar ôl eu dyddiad dod i rym sef 31 Rhagfyr 2023.